

## DAFYDD ab EDMWND (fl. 1450-1490), uchelwr a phencerdd

**Enw:** Dafydd ab Edmwnd  
**Plentyn:** Edward ap Dafydd  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** uchelwr a phencerdd  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Perchnogaeth Tir; Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** Thomas Roberts

Ganwyd ym mhlwyf Hanmer ym Maelor Saesneg. Hanai o'r un llinach â theulu'r **Hanmeriaid**, a disgynnai o John Upton, cwnstabl castell Caernarfon, 1306-7, fab Syr John Macklesfield. Ef oedd perchen Yr Owredd a llawer o diroedd eraill yn Hanmer, ond treuliodd ran o'i oes, fodd bynnag, ym mro ei fam, sef yn Nhre Wepra yn Nhegeingl. Claddwyd ef yn eglwys Hanmer.

Dafydd ab Edmwnd a enillodd y gadair arian am drefnu mesurau cerdd dafod yn yr eisteddfod yng Nghaerfyrddin gerbron **Gruffudd ap Nicolas** yn 1451. Ef oedd penawdurdod y beirdd ar bynciau iaith a mydr. Ganddo ef yn bennaf oll yr oedd gwybodau am gelfyddyd cerdd dafod, ac arddelid ef yn feistr ar gerddwriaeth gywrain. Hen fesurau oedd y cwbl yn ei drefniant, ond dau o gaethiwed eithafol a ddyfeisiodd ef ei hun, sef y Cadwynfyr a Gorchest y Beirdd. Ychwanegodd hefyd at gaethder mesurau eraill trwy ddeddfu bod yn rhaid i'r rhagodiau yn y Rhupunt Hir a Byr a'r Tawddgyrch Cadwynog odli'n ddwbl, a bod yn rhaid canu awdl-gwydd ar gynghanedd reolaidd. Caethiwodd y gynghanedd hefyd, a'r cwbl er trefnu profion anos i'r ymgeiswyr am raddau, ac felly ddiogelu cyfundrefn y beirdd rhag y rhigymwyr a oedd mor chwannog i fwyhau eu breintiau.

Yr oedd ffurf ac addurn cerdd yn bethau pwysig iawn yng ngolwg y bardd. Yn ei ganu meistraidd ar y Cywydd Deuair Hirion gofalai am lyfnder a symlrwydd iaith, ond yn ei gywyddau 'gorchestol' y mae yn or-gywrain yn ei ddefnydd o'r 'cymeriadau'; ac yn ei awdlau nid dim ond y cynganeddion mwyaf celfydd a'r mesurau mwyaf caeth a'i bodlonai.

Cywyddau serch yw prif ffrwyth ei awen. Yn ôl traddodiad y canu serch canodd hwyrganau a dychanau i Eiddig. Rhoes fwy o sylw i degwch rhanedd nag a wnaeth **Dafydd ap Gwilym**, canys canodd yn gain ac yn gywrain iawn gywyddau i ddyfalu harddwch eu pryd, a moli melynder eu gwallt a gwrid eu gruddiau. Ychydig a ganodd i Natur, er y ceir ganddo rai disgrifiadau prydfferth o'r 'Deildy' mewn cywyddau sy'n gyfuniad o serch a natur.

Er bod y bardd yn ei flodau yn adeg Rhyfeloedd y Rhosynnau, ni cheir dim son am derfysgoedd y cyfnod ganddo. Ond y mae ei genedlgarwch yn amlwg er hynny, a dengys ei waith ei fod yn meddu ar yr ymdeimlad cenedlaethol i raddau helaeth iawn.

'Canmol a chlodfori' a wnaeth Dafydd ab Edmwnd yn y gweddill o'i gyfansoddiadau - yn ôl cyfarwyddyd y gramadegau ar swydd prydydd. Canmol athrylith telynor, neu orchest milwr; canmol haelioni pendefig ac ysgolheictod abad ac offeiriad; a chlodfori Duw'r Tad a Duw'r Mab a Mair am bob daioni. Dwg ei waith nodau meist'r pan nad yw'n canu'n or-gywrain, gan mor odidog ei ddychymyg a'i welediad, a chan mor llwyr ei feistrolaeth ar ei gelfyddyd.

### Awdur

**Thomas Roberts**, (1885 - 1960)

### Ffynonellau

Thomas Roberts (gol.), *Gwaith Dafydd ab Edmwnd a gasglwyd o ysgriflyfrau Peniarth, Llanstephan, Caerdydd, Havod, Mostyn, Coleg yr Iesu a'r Amgueddfa Brydeinig* (Bangor 1914) (Bangor Welsh MSS. Society)

Archifau LIGC: Peniarth MS 134: Llyfr mawr Gruffudd Hiraethog

Archifau LIGC: Peniarth MS 158: Llyfr Robert ap Ifan o Fryn Siencyn

Archifau LIGC: Peniarth MS 267: Trioedd Ynys Prydain

J. Morris-Jones, *Cerdd Dafod sef celfyddyd barddoniaeth Gymraeg* (Rhydychen 1925), 349-52

G. J. Williams, *Gramadegau'r Penceirddiaid* (1934), xlii-xlvii

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd ab Edmwnd](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3399895](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodiwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government